**Jeff Cuthbert AC/AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-511
Ein cyf/Our ref JC/00621/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

19 Awst 2014

Annwyl William

Diolch am eich llythyr diweddar ynghylch cefnogaeth i'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

Rwy'n cydnabod bod y Safonau'n fater pwysig i blant a phobl ifanc, ac yn unol â hynny, rwyf wedi ymrwymo i edrych am ffordd o'u cefnogi.

Yn ddiweddar cyhoeddais ganlyniad y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd newydd. Un o'r blaenoriaethau o fewn y grant oedd cefnogaeth i ddatblygiad polisi a strategaeth, a chyfleoedd systemig i'r holl blant a phobl ifanc gael lleisio eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt, ac yng ngwaith Llywodraeth Cymru. Dan y flaenoriaeth hon, anogwyd ymgeiswyr posibl i ystyried eu swyddogaethau mewn perthynas â hyrwyddo a hybu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

Roedd Plant yng Nghymru'n llwyddiannus dan y flaenoriaeth hon, ac mae swyddogion bellach yn trafod manylion y prosiect gyda nhw. Bydd rhan o'r trafodaethau hyn yn edrych ar ffyrdd o helpu i hyrwyddo a rheoli'r Safonau'n genedlaethol, gan gynnwys y nod barcut.

Byddaf yn sicrhau bod fy swyddogion yn rhannu'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan Fforwm Ieuenctid Powys gyda Plant yng Nghymru.

Yn gywir,

**Jeff Cuthbert AC/AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*